

2021 Rhif (Cy.)

2021 No. (W.)

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A44  
(Goginan i Gapel Bangor,  
Ceredigion) (Gwahardd Cerbydau  
Dros Dro) 2021

The A44 Trunk Road (Goginan to  
Capel Bangor, Ceredigion)  
(Temporary Prohibition of  
Vehicles) Order 2021

*Gwnaed* 23 Rhagfyr 2021

*Made* 23 December 2021

*Yn dod i rym* 3 Ionawr 2022

*Coming into force* 3 January 2022

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A44, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A44 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi a chychwyn**

**Title and commencement**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A44 (Goginan i Gapel Bangor, Ceredigion) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Ionawr 2022.

1. The title of this Order is the A44 Trunk Road (Goginan to Capel Bangor, Ceredigion) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2021 and this Order comes into force on 3 January 2022.

**Dehongli**

**Interpretation**

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 3 Ionawr 2022 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A44 Newtown to Aberystwyth trunk road;

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means intermittent periods commencing at 19:00 hours

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A44 y Drenewydd i Aberystwyth.

### **Gwaharddiad**

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 150 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r U1082 (arwydd Old Goginan) at bwynt 490 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r C1130, i'r dwyrain o Gapel Bangor, Ceredigion.

### **Cymhwyso**

4. Ni fydd gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

23 Rhagfyr 2021

*Nicci Hunter*  
Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

on 3 January 2022 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

### **Prohibition**

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the length of the trunk road that extends from a point 150 metres east of the centre-point of its junction with the U1082 (signposted Old Goginan) to a point 490 metres north-east of the centre-point of its junction with the C1130, east of Capel Bangor, Ceredigion.

### **Application**

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### **Duration of this Order**

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

23 December 2021

*Nicci Hunter*  
Business Team Leader  
Welsh Government